

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
11 Gorffennaf 2013, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 368

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garfield Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Eitem 1- 3)
	Carys Evans	(Pennaeth Ymchwil) (Eitem 6 yn unig)
	Sarah-Jane Pritchard	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

1. Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 367 (13 Mehefin 2013) a materion yn codi

2.1 Cofnodion cyfarfod 367

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 367.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

2.2 Materion yn codi

Nodwyd y canlynol:

Cyflwyno gwybodaeth am gyfarfodydd yr Awdurdod

[**Crynodeb:** Diweddarwyd yr aelodau ar y gwaith.]

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am ganllawiau staff ar gyfer defnydd o rwydweithiau cymdeithasol.]

Ystyried Cydleoli ac Adleoli gweithgareddau S4C

Rhoddodd IHJ ddiweddariad ar waith Cydleoli ac Adleoli gweithgareddau S4C. Roedd y swyddogion yn parhau i weithio ar y fframwaith a gymeradwywyd yn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod IHJ wedi cyfarfod â Rhodri Talfan Davies i roi diweddariad iddo ar argymhellion yr Awdurdod ac y byddai cynllun BBC Cymru yn cael ei gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC maes o law.

Adroddiad Blynyddol 2012

Nodwyd y bydd Adroddiad Blynyddol 2012 yn cael ei osod gerbron y Senedd ar 16 Gorffennaf a'i gyhoeddi ar 17 Gorffennaf.

3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

3.2 Adolygiad Gwariant Cyhoeddus 2015-16

[**Crynodeb:** Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am Adolygiad Gwariant Cyhoeddus 2015-16. Cyhoeddwyd y byddai S4C yn parhau i dderbyn £6.7m gan DCMS yn y flwyddyn ariannol 2015-16. Diolchodd y Cadeirydd ar ran yr Awdurdod i'r swyddogion am eu holl waith yn ystod yr wythnosau diwethaf.]

3.3 Y Gynhadledd Fawr

Roedd y Cadeirydd a DRh wedi mynychu'r Gynhadledd Fawr ar 4 Gorffennaf yn Aberystwyth. Trefnwyd y gynhadledd gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd drafod dyfodol yr iaith Gymraeg. Prif Weinidog Cymru oedd yn arwain gweithgareddau'r dydd. Cafwyd sesiynau trafod am amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â dyfodol yr iaith, ond ni roddwyd llawer o sylw i ddarlledu yn ystod y dydd.

Nododd y Cadeirydd mai sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau oedd y thema a godwyd amlaf yn ystod y dydd. Awgrymwyd y dylid cynnal sesiwn drafod i ystyried a yw strategaeth gyfredol S4C i geisio apelio at bawb yn llwyddo i gyfrannu tuag at ddatblygiad yr iaith, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

Nodwyd ei bod yn bwysig i swyddogion ac Aelodau fynychu digwyddiadau megis y gynhadledd i siarad â swyddogion mewn meysydd gwahanol er mwyn gallu cynllunio strategaeth S4C ar gyfer y dyfodol gan ddeall beth yw anghenion y gynulleidfa a phartneriaid S4C.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr

4.1 Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

4.2 Ansawdd ¾ - diweddariad

Rhoddodd IHJ ddiweddariad am y gwaith i ddarlledu gwasanaeth S4C mewn ansawdd llawn ar Freeview. Nodwyd bod Ofcom wedi cadarnhau y dylai darlledwyr cyhoeddus gael eu darlledu mewn ansawdd llawn. Ar ôl trafodaethau gyda pherchennog y plethiad, D3&4 Limited, cynhaliwyd arbrofion llwyddiannus i wella

ansawdd gwasanaeth S4C drwy ddefnyddio ansawdd llawn a chynyddu'r gofod digidol a neilltuwyd ar gyfer S4C ar y plethiad. Bydd gwasanaeth S4C yn cael ei ddarlledu mewn ansawdd llawn o 24 Gorffennaf.

4.3 **Cynllun pum mlynedd hyd at 2017**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ a KM y cynllun ariannol pum mlynedd hyd at 2017. Cafwyd trafodaeth am y gyllideb Cynnwys a chyfeiriwyd at gostau darparu gwasanaeth S4C ar blatfformau gwahanol.]

Cymeradwyodd yr Awdurdod fframwaith y cynllun pum mlynedd a gofynnwyd i'r swyddogion ystyried sylwadau'r Aelodau wrth drosi'r cynllun i flynyddoedd ffiscal.

4.4 **Adolygu'r ail strwythuro**

Nodwyd y byddai'r swyddogion yn adolygu gwaith ail strwythuro'r llynedd a chyflwyno eu casgliadau i'r Awdurdod ym mis Medi.

5. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig a chafwyd trafodaeth am Ddrama a rhaglenni Amaeth.]

6. **Cyflwyniad Ymchwil Ail Chwarter 2013 ac Adroddiad Ymchwil Misol**

6.1 **Cyflwyniad Ymchwil Ail Chwarter 2013**

[**Crynodeb:** Rhoddodd CEv gyflwyniad ar ganfyddiadau ymchwil Ail Chwarter 2013. Pwysleisiwyd yr angen i ystyried ffigurau gwyllo dros gyfnod estynedig oherwydd y newidiadau i banel BARB ac oherwydd digwyddiadau eithriadol megis y Gemau Olympaidd y llynedd. Penderfynwyd y dylid ystyried sut i asesu "effaith" S4C ac yn benodol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg.]

6.2 **Adroddiad Ymchwil Misol**

Nodwyd yr Adroddiad Ymchwil Misol.

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

7.1 Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y materion isod.

7.2 Rhoddodd GLL ddiweddariad am yr ymgyrchoedd hyrwyddo yn ystod y mis diwethaf. Cafwyd trafodaeth am ymgyrch hyrwyddo wythnos **Cynefin**. Hyrwyddwyd y tymor mewn sawl ffordd, gan gynnwys targedu gwylwyr mewn ardaloedd gwledig. Bydd swyddogion yn trafod amseru wythnosau thematig eraill cyn diwedd y flwyddyn er mwyn cynllunio'r rhaglen waith hyrwyddo.

7.3 Nodwyd bod gwaith adnewyddu adeilad S4C yn Llanelwedd wedi ei gwblhau ac roedd swyddogion yn paratoi ar gyfer digwyddiadau S4C yn ystod Y Sioe Frenhinol. Bydd App Sioe Frenhinol Cymru yn cael ei lansio'r wythnos nesaf. Diolchodd JD ar ran Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru am waith a chefnogaeth S4C wrth i'r Gymdeithas baratoi ar gyfer y Sioe.

7.4 [**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am ffrydiau newyddion ar wefan newydd S4C.]

7.5 Cafwyd trafodaeth am gyfleoedd masnachol i elwa ar wasanaeth Cyw. Bydd taith Sioe Nadolig Cyw yn ymweld ag 13 theatr ar draws Cymru eleni. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd ymestyn profiad plant o'r Gymraeg y tu hwnt i wyllo rhaglenni fel rhan o effaith S4C ar ddatblygu'r iaith.

8. **Adroddiad Ariannol**

Cyflwynodd KM yr adroddiad ariannol.

9. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Nodwyd bod cyfarfod y Pwyllgor wedi ei ohirio a chynhelir y cyfarfod ym mis Medi.

10. **Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol**

Cyflwynodd CB adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 19 Mehefin

[**Crynodeb:** Trafodwyd buddsoddiadau'r Gronfa Fasnachol a chymeradwywyd sefydlu Pwyllgor Buddsoddi i ystyried buddsoddiadau posibl.]

11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

[**Crynodeb:** Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad cynhwysfawr am ddarpariaeth rhaglenni Adloniant ac Ieuencid a thrafodaeth am werthfawrogiad rhaglenni ar draws y genre.]

12. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.

12.2 Nodwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr.

13. **Unrhyw fater arall**

Cyfeiriwyd at adroddiad yr NAO ynglŷn a thaliadau diswyddo i swyddogion y BBC. Yn sgil yr adroddiad, penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth ystyried polisi a phrosesau diswyddo S4C.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Medi 2013 yng Nghaerdydd.